

Rhondda Cynon Taf



Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

Amserlen Hyfforddi 2018-19

Cyflwyniad

Croeso i amserlen hyfforddi blwyddyn academiaidd 2018/19. Rydyn ni wedi cynllunio'r cyfleoedd dysgu yma gyda'r gobaith y byddan nhw'n bodloni anghenion ymarferwyr. Maen nhw wedi'u seilio ar geisiadau am gymorth i Wasanaeth Cynnal Dysgu. Byddan nhw'n darparu cyfle i fynd i'r afael ag anghenion cyfredol mewn ysgolion. Byddan nhw hefyd yn rhoi cyfle i ysgolion gymryd camau rhagflaenol er mwyn bodloni anghenion plant yr 21^{ain} Ganrif.

Yn ystod y flwyddyn Academiaidd yma, byddwn ni'n gweld ymgynghoriad ar God Ymarfer ADY wrth i ni fynd trwy broses gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig eleni'n cynnwys hyfforddiant sydd yn cydfynd â natur y diwygiadau ac sydd, yn syml iawn, yn enghreifftio ymarfer cynhwysol arbennig sy'n canolbwyntio ar dystiolaeth.

Rydyn ni'n cynnig sesiynau hyfforddi amrywiol gan gynnwys cyrsiau sydd wedi'u trefnu'n ganolog a chyrsiau ar ffurf dewislen. Mae modd eu darparu yn yr ysgol yn rhan o sesiwn gyda'r hwyr neu ddiwrnod HMS. Rydyn ni'n fodlon darparu hyfforddiant ar gyfer holl staff yr ysgol, llywodraethwyr neu rieni. Os nad oes unrhyw un o'r sesiynau hyfforddi yn bodloni'ch anghenion, cysylltwch â Leah Thomas. Bydd modd iddi roi cyngor i chi ynglŷn ag opsiynau DPP eraill sydd ar gael drwy'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu.

Kate Hill

Pennaeth y Gwasanaeth Cynnal Dysgu.

Calendr Hyfforddiant

Tymor yr Hydref 2018		
Dydd Gwener 16 Tachwedd	Gwneud y defnydd gorau o Arferion Cynorthwywyr Addysgu - Gwella Annibyniaeth Disgyblion, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Sesiwn 1	£120 - 1.5 diwrnod
Dydd Llun 19 Tachwedd	Llythrennedd Ymarferol (1 diwrnod)	£50
Dydd Mawrth 20 Tachwedd	Trawsnewid rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (cwrs 3 diwrnod) - Diwrnod 1	£250
Dydd Mawrth 27 Tachwedd	Defnyddio dull Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mewn Cyfarfodydd Adolygu: Hyfforddiant ar gyfer Hwyluswyr (1/2 diwrnod)	£50
Dydd Gwener 30 Tachwedd	Gwneud y defnydd gorau o Arferion Cynorthwywyr Addysgu - Cynorthwy-ydd Addysgu, Sesiwn 2 - 1/2 diwrnod	
Dydd Gwener 30 Tachwedd	Hyfforddiant Datrys Anghydfodau	
Dydd Mercher 5 Rhagfyr	Modiwl Llythrennedd	£100

Tymor y Gwanwyn 2019		
Dydd Iau 10 Ionawr	ELKLAN 11-16oed Diwrnod 1	
Dydd Gwener 11 Ionawr	POPAT Cymraeg - Diwrnod 2	Cost y cwrs cyfan yn ogystal â ffi adnoddau ychwanegol o £50
Dydd Mawrth 15 Ionawr	POPAT Saesneg - Diwrnod 2	Cost y cwrs cyfan yn ogystal â ffi adnoddau ychwanegol o £50
Dydd Mawrth 15 Ionawr	Codi Ymwybyddiaeth ar gyfer dysgwyr sydd â nam ar y clyw mân neu gymedrol (1/2 diwrnod)	£50 neu am ddim ar gyfer ysgolion sydd â disgyblion sy'n gofyn am gymorth Categori C.
Dydd Mercher 16 Ionawr	Codi Safonau ar gyfer dysgwyr sydd â nam ar eu golwg (1/2 diwrnod)	£50 neu am ddim ar gyfer ysgolion sydd â disgyblion sy'n gofyn am gymorth Categori C.
Dydd Mawrth 22 Ionawr	Cyflwyniad i Wasanaethau Cynhwysiant a Mynediad RhCT ar gyfer Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol/Uwch Dîm Rheoli newydd - 1/2 diwrnod gyda'r prynhawn	Am ddim
Dydd Mawrth, 22 Ionawr	Literacy Launch Pad - Diwrnod 1 (bore yn unig)	£360 - cwrs cyfan
Dydd Mawrth, 22 Ionawr	Y Dosbarth Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ('ADHD') (1/2 diwrnod - gyda'r bore)	£50
Dydd Mercher 23 Ionawr 2013	ELKLAN 5-11 Diwrnod 1	
Dydd Mercher 23 Ionawr	Bodloni eich dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb ar gyfer Dysgwyr sydd ag Anghenion Corfforol a Meddygol (1/2 diwrnod)	£50
Dydd Iau 24 Ionawr	Literacy Launch Pad - Diwrnod 2 (y bore yn unig)	
Dydd Iau 24 Ionawr	Cyflwyno Dulliau Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (1/2 diwrnod)	£50
Dydd Mawrth 29 Ionawr	Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu: Codi Ymwybyddiaeth a Phennu Targedau (y bore yn unig)	£50
Dydd Iau 31 Ionawr	Trawsnewid rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol - Diwrnod 2	

Dydd Gwener 1 Chwefror	Cefnogi Dysgwyr Unigol sydd ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd - Cwrs Cynorthwywyr Cymorth Dysgu (un diwrnod)	£50
Dydd Mercher 6 Chwefror	Hyfforddiant Datrys Anghydfodau	
Dydd Iau 7 Chwefror	Ymwybyddiaeth Awtistiaeth	£130
Dydd Mawrth 12 Chwefror	Literacy Launch Pad - Diwrnod 3 (diwrnod llawn)	
Dydd Iau 14 Chwefror	Literacy Launch Pad - Diwrnod 4 (diwrnod llawn)	
Dydd Mercher 13 Mawrth	Ymyriadau ar gyfer Disgyblion ag Anawsterau Llythrennedd – Active Literacy Kit (ALK)	£150
Dydd Iau 14 Mawrth	ELKLAN 5-11 Diwrnod 2	
Dydd Gwener 15 Mawrth	Gwneud y gorau o arferion cynorthwywyr addysgu - sesiwn i athrawon	£60
Dydd Mawrth 19 Mawrth	Creu Amgylcheddau Cadarnhaol yn yr Ystafell Ddosbarth er mwyn Ymgysylltu â Phawb (Cynradd) (1/2 diwrnod - am)	£50
Dydd Mawrth 19 Mawrth	Creu Amgylcheddau Cadarnhaol yn yr Ystafell Ddosbarth er mwyn Ymgysylltu â Phawb (Uwchradd) (1/2 diwrnod - pm)	£50
Dydd Mercher 20 Mawrth	Dyscalcwlia	£100
Dydd Iau 21 Mawrth	Defnyddio dull Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mewn Cyfarfodydd Adolygu: Hyfforddiant ar gyfer Hwyluswyr (1/2 diwrnod)	£50
Dydd Iau 28 Mawrth	ELKLAN 11-16 Diwrnod 2	
Dydd Iau 28 Mawrth	Gwneud y defnydd gorau o Arferion Cynorthwywyr Addysgu - Gwella Annibyniaeth Disgyblion, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Sesiwn 1	£120 - 1.5 diwrnod
Dydd Mawrth 2 Ebrill	Trawsnewid rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol - Diwrnod 3	
Dydd Mawrth 2 Ebrill	Hyfforddiant Datrys Anghydfodau	
Dydd Mawrth 9 Ebrill	Gwneud y defnydd gorau o Arferion Cynorthwywyr Addysgu - Cynorthwy-ydd Addysgu, Sesiwn 2 - 1/2 diwrnod	

Tymor yr Haf 2019		
Dydd Iau 9 Mai	Codi Safonau ar gyfer dysgwyr sydd â Nam ar y clyw mân neu gymedrol (1/2 diwrnod)	£50 neu am ddim ar gyfer ysgolion sydd â disgyblion sy'n gofyn am gymorth Categori C.
Dydd Mawrth 14Mai	Codi Safonau ar gyfer dysgwyr sydd â nam ar eu golwg (1/2 diwrnod)	£50 neu am ddim ar gyfer ysgolion sydd â disgyblion sy'n gofyn am gymorth Categori C.
Dydd Mawrth 14Mai	Cyflwyniad i'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ar gyfer Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol/Uwch Garfan Reoli newydd	Am ddim
Dydd Iau 16 Mai	Ymwybyddiaeth Awtistiaeth	£130
Dydd Iau 16 Mai	Hyfforddiant Datrys Anghydfodau	
Dydd Mercher 5 Mehefin	Bodloni eich dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb ar gyfer Dysgwyr sydd ag Anghenion Corfforol a Meddygol (1/2 diwrnod)	£50
Dydd Mercher 5 Mehefin	Modiwl Llythrennedd	£100
Dydd Iau 6 Mehefin	Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu: Asesu a Phennu Targedau (y bore yn unig)	£50
Dydd Mawrth 25 Mehefin	Cyflwyno Dulliau Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (1/2 diwrnod)	£50
Dydd Iau 27 Mehefin	Cynhadledd Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol	£15 y pen
Dydd Mawrth 9 Gorffennaf	Defnyddio dull Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mewn Cyfarfodydd Adolygu: Hyfforddiant ar gyfer Hwyluswyr (1/2 diwrnod)	£50
Codi a Chario - dyddiadau amrywiol		
	Codi/cario disgyblion ag anghenion arbennig (cwrs deuddydd)	£200
	Cwrs Gloywi Blynnyddol - Codi/Cario Disgyblion ag Anghenion Arbennig (cwrs unddydd)	£100

****Nodwch - mae cyrsiau Nam ar y Golwg a Nam ar y Clyw am ddim ar gyfer ysgolion sydd â disgyblion sy'n gofyn am gymorth categori C****

Seicoleg Addysg

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau, wedi'u hanelu'n bennaf at staff mewn ysgolion, o lywodraethwyr ac uwch reolwyr i athrawon a chynorthwywyr addysgu. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae modd addasu'r cyrsiau yma i gynnwys staff eraill y Cyngor.

Cyrsiau pwrpasol sydd ar gael:

- Deall Ymlyniad ac Ymgyfarwyddo ymhlith plant
- Deall Ymddygiad Heriol mewn Plant a Phobl Ifainc
- Deall Cyflyrau Niwroddatblygiadol (Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ('ADHD'), Anhwylderau yn y Sbectwm Awtistig 'ASD')
- Deall Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)
- Datblygu Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (PCP)
- Paratoi ar gyfer Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Paratoi a Chynllunio ar gyfer Digwyddiadau Tyngedfennol ar gyfer Ysgolion
- Deall Profedigaeth
- Deall Hunanladdiad a Hunan-niweidio (yn unol ag iechyd a phartneriaid Gwasanaeth Cwnsela Eye to Eye)
- Hyfforddiant Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA)
- Goruchwyllo ar gyfer Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA)
- Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) i athrawon
- Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) i'r Blynyddoedd Cynnar

Caiff hyfforddiant Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA Cost y cwrs yw £350 fesul cynrychiolydd a chaiff goruchwyliaeth Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol ei darparu (2 awr fesul hanner tymor). I gadw lle, cysylltwch â Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

Mae modd addasu unrhyw hyfforddiant arall er mwyn bodloni'ch anghenion chi o ran amseroedd.

Ac eithrio hyfforddiant Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol, mae modd trefnu costau pob cwrs yn uniongyrchol â'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a bydd costau'n dibynnu ar nifer y cynrychiolwyr, cost y lleoliad ac adnoddau.

Gwasanaeth Cynnal Dysgu

Hyfforddiant Unigryw

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Syndrom Down
Hyfforddiant Cynllun Addysg Unigol
Wordshark (gan gynnwys disg adnoddau neu heb ddisg adnoddau)
Numbershark (gan gynnwys disg adnoddau neu heb ddisg adnoddau)
Ymwybyddiaeth Awtistiaeth
Anghenion Cymhleth - Cymraeg
Anghenion Cymhleth - Saesneg
**Mynd i'r afael â Bwlio mewn ysgolion (1/2 diwrnod)
**Dosbarth Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywiogrwydd ('ADHD') (1/2 diwrnod - yn y bore yn unig)
**Creu Amgylcheddau Cadarnhaol yn yr Ystafell Ddosbarth er mwyn Ymgysylltu â Phawb (Cynradd) (1/2 diwrnod - yn y bore yn unig)
**Creu Amgylcheddau Cadarnhaol yn yr Ystafell Ddosbarth er mwyn Ymgysylltu â Phawb (Uwchradd) (1/2 diwrnod - yn y bore yn unig)
**Hybu Ymddygiad Cadarnhaol yn ystod Amser Cinio (1/2 diwrnod)

Cost Hyfforddiant Unigryw:

- Diwrnod cyfan - £500 (hyfforddiant 8 awr, amser teithio a pharatoi) fesul athro
- Hanner diwrnod - £260 (hyfforddiant hyd at 4 awr, amser teithio a pharatoi) fesul athro
- Fesul awr - £65 fesul athro

**Mae modd i ysgolion ddefnyddio'r sesiynau Cymorth Ymddygiad y Cytundeb Lefel Gwasanaeth i fanteisio ar y cyrsiau uchod sy'n ymwneud ag ymddygiad. Siaradwch â'ch Athro Cynnal Ymddygiad i drafod hyn ymhellach.

Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig / Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol (ASD/SCN)

Ymwybyddiaeth Awtistiaeth	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Targed: Athrawon, Cydlynwyr AAA, Uwch Reolwyr Pris: £130</p>	<p>Bydd y cwrs yma'n datblygu'ch dealltwriaeth o Awtistiaeth ac yn eich strategaethau sy'n addas ar gyfer y cyfnodau er mwyn cefnogi'ch dysgwyr.</p> <p>Bydd gyda chi gyfle i archwilio datrysiadau ar gyfer eich disgyblion chi trwy ddefnyddio ffurflenni. Yn y bore byddwch chi'n derbyn cyflwyniad i awtistiaeth a'r heriau mae'n eu cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth. Bydd y sesiwn prynhawn yn cynnwys gweithdy ymarferol sy'n canolbwyntio ar gyfnodau penodol.</p> <p>Amcanion y Gweithdy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu'ch dealltwriaeth o Awtistiaeth • Darparu strategaethau ymarferol • Gweithdai sy'n berthnasol i'ch cyfnod chi - CS, CA2, CA3/4 • Astudiaethau achos sy'n berthnasol i'ch disgyblion - bydd gofyn i chi ddod â ffurflenni'r disgyblion rydych chi eisiau eu trafod • Targedau CAMPUS a'r broses atgyfeirio

Cefnogi Dysgwyr Unigol sydd ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd / Uwchradd Targed: Cynorthwywyr Cymorth Dysgu sy'n cefnogi dysgwyr sydd â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a lle mae oriau cymorth ychwanegol wedi cael eu darparu Pris: £50</p>	<p>Bydd y cwrs hanner diwrnod yma'n darparu'r wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sydd eu hangen ar Gynorthwywyr Cymorth Dysgu er mwyn cefnogi dysgwyr ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd.</p> <p>Cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y triawd o amhariadau a sut maen nhw'n effeithio ar ddysgwr yn yr ystafell ddosbarth • Strategaeth ymarferol er mwyn cefnogi dysgwyr • Gweithio mewn partneriaeth â'r athro dosbarth • Deall adroddiadau arbenigol a'u cynnwys mewn cynlluniau unigol • Datblygu a chynnal perthnasau da gyda theuluoedd

Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ('SLCN')

Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu: Asesu a Phennu Targedau	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd Targed: Athrawon Dosbarth, Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig / Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Pris: £50</p>	<p>Bydd y cwrs yma'n archwilio sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio effeithiol. Byddwn ni'n arddangos sut mae modd i'r ysgol ddefnyddio dulliau asesu er mwyn nodi anghenion a helpu hysbysu targedau CAMPUS y Cynllun Addysg Unigol.</p> <p>Bwriad y sesiwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio asesiadau er mwyn nodi disgyblion sy'n profi anawsterau iaith fynegiannol. • Defnyddio gwybodaeth asesu er mwyn datblygu targedau Cynllun Addysg Unigol addas.

Newyddion diweddaraf ynglŷn â Language Link Update	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Y Blynnyddoedd Cynnar - Y Cyfnod Sylfaen Targed: Athrawon y Dosbarth Derbyn a Chynorthwywyr Cymorth Dysgu Pris: £50</p>	<p>Bydd y cwrs yma'n diweddarau'ch gwybodaeth ynglŷn â rhaglen Language Link, er mwyn cefnogi disgyblion sydd ag anawsterau lleferydd ac iaith.</p> <p>Bwriad y sesiwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal asesiad Language Link • Sefydlu grwpiau • Cynnal grwpiau

SPEECHLINK - Y Diweddaraf	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Y Blynnyddoedd Cynnar - Y Cyfnod Sylfaen Targed: Athrawon a Chynorthwywyr Cymorth Dysgu Pris: £50</p>	<p>Bydd y cwrs yma'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynglŷn â'r rhaglen Speechlink. Mae modd defnyddio'r rhaglen yma er mwyn cefnogi disgyblion sydd ag anawsterau lleferydd</p> <p>Bwriad y sesiwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal yr asesiad • Cynllunio ymyrraeth

	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal ymyrraethau
--	--

Cwrs Wellcomm	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Y Blynyddoedd Cynnar - Y Cyfnod Sylfaen Targed: Pris:	Bydd y cwrs yma'n datblygu'ch gwybodaeth am raglen Wellcomm er mwyn datblygu sgiliau lleferydd ac iaith ar gyfer disgyblion ifainc. Amcanion y sesiwn; <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio'r asesiad • Pennu targedau • Cynnal grwpiau ymyrraeth

Cwrs ELKLAN 5-11	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
Hwylusydd: Y Gwasanaeth Cynnal Dysgu / Gwasanaeth Seicoleg Addysg Cyfnod: Cynradd Targed: Cydlynwyr ADY, Athrawon, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu Cost: £250	Mae'r cwrs yn ystyried iaith oddefol (receptive language) ac iaith fynegiannol (expressive language), megis cyfathrebu sy ddim yn eiriol, y cof ac addasu lleferydd, geirfa ac iaith aneglur. Mae disgwyl i bob cyfranogwr fynd i bob un o'r 3 diwrnod

Cwrs ELKLAN 11-16 oed	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu / Gwasanaeth Seicoleg Addysg Cyfnod: Uwchradd Targed: Cydlynwyr ADY, Athrawon, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu Pris: £250</p>	<p>Cwrs hyfforddi ymarferol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd sy'n rhannu dulliau a strategaethau newydd er mwyn iddyn nhw wneud y gorau o leferydd, iaith a chyfathrebu pobl ifainc a gwahaniaethu'r cwricwlwm mewn modd effeithiol. Mae'r cwrs yn darparu cyngor a strategaethau ymarferol sydd hefyd yn addas ar gyfer plant sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ac anghenion addysgol arbennig eraill. Mae'r cwrs yma ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, athrawon ysgolion uwchradd a chynorthwywyr addysgu</p> <p>Mae disgwyl i gyfranogwyr fynychu pob un o'r 3 diwrnod</p>

Anableddau Corfforol, Nam ar y Golwg a Nam ar y Clyw
Mae'r cwrs yma'n hanfodol ar gyfer ysgolion sydd â disgyblion sy'n gofyn am gymorth categori C (di-dâl)

Codi Safonau ar gyfer Dysgwyr sydd â Nam ar y Clyw	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Athrawon, Cynorthwyr Cymorth Dysgu, Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig Pris: £50</p>	<p>Nod y cwrs hanner diwrnod hwn fydd codi ymwybyddiaeth o anghenion disgyblion ag anawsterau synhwyrdd a'u goblygiadau o ran dysgu.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall Nam ar y Clyw • Rôl Athrawes i Blant Byddar • Strategaethau y mae modd eu defnyddio er mwyn gwella'r dysgu a mynediad i'r cwricwlwm • Defnyddio technoleg, teclyn clyw, teclyn radio, • Ystafelloedd Dosbarth sy'n Acwstig Gyfeillgar • Strategaethau cymorth ac adnoddau addas ar gyfer dosbarthiadau prif ffrwd • Dealltwriaeth o'r problemau cymdeithasol ac emosiynol perthnasol <p>Mae'r cwrs yma'n orfodol ar gyfer ysgolion sydd ag ysgolion sy'n derbyn cymorth categori C (di-dâl)</p>

Codi Safonau ar gyfer Dysgwyr sydd â Nam ar eu Golwg	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Athrawon, Cynorthwyr Cymorth Dysgu, Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig Pris: £50</p>	<p>Nod y cwrs hanner diwrnod hwn fydd codi ymwybyddiaeth o anghenion disgyblion ag anawsterau synhwyrdd a'u goblygiadau o ran dysgu.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall Nam ar yr Olgw • Rôl Athro Cymwysedig Disgyblion â Nam ar eu Golwg (QTVI) • Strategaethau er mwyn cefnogi a gwella dysgu a mynediad i'r cwricwlwm • Defnyddio technoleg, cymhorthion i bobl brin eu golwg, llechen electronig, cymhorthion clyweled • Strategaethau cymorth ac adnoddau addas ar gyfer dosbarthiadau prif ffrwd • Dealltwriaeth o'r problemau cymdeithasol ac emosiynol perthnasol sy'n wynebu dysgwyr

Mae'r cwrs yma'n hanfodol ar gyfer ysgolion sydd â disgyblion sy'n gofyn am gymorth categori C (di-dâl)

Codi/cario disgyblion ag anghenion arbennig

Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd, Darpariaeth Arbennig Targed: Cynorthwywyr Cymorth Dysgu Pris: £200</p>	<p>Cynhelir y cwrs hwn dros 2 ddiwrnod. Mae'r cwrs hwn yn ymdrin yn benodol â symud a chodi a chario plant a phobl ifainc â nam symudedd. Nod y cwrs yw trafod holl ofynion damcaniaethol ac ymarferol Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992 yn ogystal â'r deddfwriaethau eraill sy'n berthnasol i godi a chario mewn ysgolion prif ffrwd.</p> <p>Bydd yr wybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol a gynigir ar y cwrs yn helpu Cynorthwywyr Cymorth Dysgu i gyflawni eu dyletswyddau codi a chario disgyblion yn ddiogel a chyfforddus.</p> <p>Rydyn ni hefyd yn cynnal sesiwn diweddarau gwybodaeth undydd ar gyfer y cwrs hwn. Nod y cwrs yw diweddarau gwybodaeth ddamcaniaethol yr hyfforddiant craidd, ac mae rhan helaeth ohono'n canolbwyntio ar godi a chario ymarferol, gan adlewyrchu anghenion yr unigolyn dan sylw gyda dulliau datrys problemau.</p> <p>Am ragor o wybodaeth ynglŷn â dyddiadau ac argaeledd y cwrs, e-bostiwch Claire Tucker: MewnflwchCodiaChario@rctcbc.gov.uk</p>

Cwrs Gloywi Blynyddol - Codi a Chario Disgyblion sydd ag Anghenion Arbennig

Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd, Darpariaeth Arbennig Targed: Cynorthwywyr Cymorth Dysgu Pris: £100</p>	<p>Am ragor o wybodaeth ynglŷn â dyddiadau ac argaeledd y cwrs, e-bostiwch Claire Tucker: MewnflwchCodiaChario@rctcbc.gov.uk</p>

Bodloni'ch dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb ar gyfer Dysgwyr sydd ag Anghenion Corfforol a Meddygol	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Athrawon, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig Pris: £50</p>	<p>Nod y cwrs hanner diwrnod yma yw codi ymwybyddiaeth ynglŷn ag anghenion disgyblion sydd ag anawsterau corfforol a meddygol a'u goblygiadau nhw o ran dysgu.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 • Polisiâu a Gweithdrefnau - cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol a'r Ysgol • Yr heriau sy'n wynebu teuluoedd • Seddi a chyfarpar • Gofal personol, meddyginiaeth a rhaglenni unigol • Defnyddio Pecyn Cymorth RhCT er mwyn cefnogi cynhwysiant effeithiol <p>Nodwch - nid cwrs codi a chario yw hyn</p>

Anawsterau Dysgu Cymhleth/Cyffredinol

Literacy Launch Pad	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Cynorthwywyr Cymorth Dysgu Pris: £360</p>	<p>Mae'r rhaglen hyfforddiant yn para rhwng tua 4 a 5 mis. Mae'n gyfuniad o ddiwrnodau hyfforddiant a gynhelir yn ganolog a monitro a chymorth yn yr ysgol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn tystysgrif cyrhaeddiad y mae'r awdurdod lleol yn ei chydabod.</p> <p>Mae'r rhaglen yn ceisio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galluogi'r hyfforddeion i gynnig ymyrraeth llythrennedd effeithiol i ddisgyblion yn ystod cyfnodau Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy o'r Cod Ymarfer AAA. • Rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i hyfforddeion ynglŷn â sut i weinyddu a dehongli asesiadau llythrennedd diagnostig. • Galluogi'r hyfforddeion i gynllunio targedau a nodau dysgu priodol (e.e. targedau Cynlluniau Addysg Unigol), yn seiliedig ar ddeilliannau asesiadau diagnostig • Dysgu sut i gynllunio a strwythuro sesiynau ymyrraeth llythrennedd (ar gyfer grwpiau ac 1:1) sy'n effeithiol ac sy'n gweddu'n berffaith • Cael profiad ymarferol o ddarganfod amrediad eang o strategaethau ac adnoddau aml-synnwyr ar gyfer dysgu. • Bydd disgwyl i hyfforddeion weithio gyda grŵp o ddisgyblion <p>Mae rhaid mynychu'r pedwar diwrnod.</p> <p>Bydd ymweliadau cymorth ac adnoddau Cymraeg ar gael ar gyfer cynrychiolwyr cyfrwng Cymraeg</p>

Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Cydlynwyr AAA, Athrawon, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu Pris: Amrywiol</p>	<p>Rhan 1: Rhaglen addysgu strwythuredig, ddatblygiadol, ddilyniannol sy'n helpu i feithrin sgiliau llythrennedd drwy alluogi disgyblion i adnabod a thrin synau mewn geiriau, cyn cyflwyno llythrennau.</p> <p>Pan y'i defnyddir gyda'r dosbarth cyfan o'r Dosbarth Meithrin/Derbyn ymlaen gall adnabod dysgwyr sydd mewn perygl o gael anawsterau llythrennedd ac mae'n darparu strategaethau ar gyfer lleihau'r perygl hwnnw.</p> <p>Gellir ei ddefnyddio mewn modd diagnostig fel rhaglen ymyrraeth ar gyfer disgyblion hŷn (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2) sydd eisoes yn cael anawsterau llythrennedd a gall fod yn adnodd defnyddiol ar gyfer pennu targedau CAU priodol.</p> <p>Rhan 2: Dull strwythuredig o fynd i'r afael â'r geiriau mwyaf cyffredin a rheolau sillafu.</p> <p style="text-align: right;">Mae'r cwrs hwn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>

Anawsterau Cymhleth Saesneg - Pwrpasol	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu</p>	<p>Bwriad y cwrs yma yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galluogi'r hyfforddeion i gynllunio amcanion dysgu addas ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth. • Rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i hyfforddeion ynglŷn â strategaethau aml-synnwyr a phroffiliau dysgu ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth.

Anawsterau Cymhleth Cymraeg - Pwrpasol	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs

Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu	Bydd y cwrs yma'n: <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi trosolwg o anghenion dysgu disgyblion ag anawsterau Dwys a Chymhleth. • Bydd cyfle i gynllunio rhaglenni gwaith, cynlluniau addysg unigol a dysgu am ddulliau addysgu aml-synhwyrol.
---	---

Ymyriadau ar gyfer Disgyblion ag Anawsterau Llythrennedd – Active Literacy Kit	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Cydlynwyr AAA, Athrawon, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cynorthwywyr Cymorth Anghenion Arbennig Pris: £150 (yn cynnwys adnoddau)	<p>Cyflwyniad cam wrth gam i ddefnyddio'r Active Literacy Kit sy'n darparu cyfres o ymarferion wedi'u hamseru sy'n meithrin y sgiliau sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer darllen a sillafu'n awtomatig, rhugl a chywir.</p> <p>Mae plant yn cwblhau gweithgareddau wedi'u strwythuro'n ofalus yn seiliedig ar ganlyniadau prawf lleoliad diagnostig. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys gwybodaeth am yr wyddor, enw a sain llythrennau, odl a chyflythreniad a darllen a sillafu sylfaenol.</p> <p>Bydd y cwrs yn cynnwys adnoddau.</p>

Modiwlau Llythrennedd (tair elfen)	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs

<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Cydlynwyr AAA, Athrawon Pris: £100</p> <p>Mae'r cwrs yn ymdrin â thri phwnc:</p> <p>Asesiadau Diagnostig a Chynllunio CAU</p> <p>Strategaethau Darllen ar gyfer Disgyblion ag Anawsterau Llythrennedd Sylweddol</p> <p>Strategaethau Sillafu ar gyfer Disgyblion ag Anawsterau Llythrennedd Sylweddol</p>	<p>Bydd hyfforddeion yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ennill dealltwriaeth o ddatblygiad sgiliau llythrennedd sylfaenol a pham mae gan rai disgyblion anawsterau llythrennedd • Derbyn cyngor am becyn cymorth o asesiadau llythrennedd diagnostig • Gweld sut i ddefnyddio asesiadau diagnostig a'u dehongli er mwyn cynllunio targedau CAU priodol ar gyfer disgyblion sy'n cael anawsterau llythrennedd <p>Bydd hyfforddeion yn cael cyflwyniad i amrywiaeth o strategaethau a gweithgareddau y gellir eu defnyddio i ddatblygu sgiliau darllen disgyblion ag anawsterau llythrennedd.</p> <p>Mae modd i ysgolion gynnal yr hyfforddiant hwn yn ystod diwrnod HMS dros ddau ddiwrnod ar gyfer yr ysgol gyfan. Dim ond hyn a hyn o leoedd sydd ar gael, felly, bydd lleoedd yn cael eu rhoi ar sail 'y cyntaf i'r felin'. Byddwn ni'n cytuno ar gostau unwaith ichi gadw lle ar y sesiynau.</p>
---	--

Llythrennedd Ymarferol	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs

<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Pris: £</p>	<p>Mae Llythrennedd Ymarferol yn adnodd sgrinio ac ymyrraeth sy'n nodi plant y cyfnod sylfaen sy'n wynebu perygl o feithrin sgiliau llythrennedd gwan yn gynnar, ac yn darparu ymyrraeth amlsynnwyr effeithiol ar gyfer y dysgwyr yma.</p>
--	--

Dyscalwlia ac Anawsterau gyda Mathemateg	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Cydlynwyr AAA, Cydlynwyr ADY, Athrawon Pris: £</p>	<p>Meysydd i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth yw dyscalwlia? • Codi ymwybyddiaeth o dyscalwlia a'r ffyrdd o'i adnabod • Cymorth i ddysgwyr â'r cyflwr a'r goblygiadau ar gyfer arholiadau • Strategaethau ac adnoddau effeithiol

Gweithiwr Allweddol Cymorth Cynnal Ymddygiad

Strategaethau Rheoli Ymddygiad ar gyfer Athrawon sydd Newydd Gymhwyso	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Athrawon Newydd eu Cymhwyso Pris: £75</p>	<p>Mae'r cwrs hanner diwrnod yma ar gyfer Athrawon Newydd eu Cymhwyso ac yn ymdrin â'r holl gyfnodau allweddol. Bydd yr ymyrraeth hyfforddiant athrawon yma'n paratoi athrawon ar gyfer yr hyn mae rhaid i chi ei wybod am reoli plant yn eich dosbarth. Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar y gofyn am strwythurau sy'n meithrin perthnasau, strategaethau rhagweithiol sy'n atal problemau ymddygiad a'r angen am wobrau a hierarchaeth canlyniadau.</p>

Mynd i'r afael a Bwlio mewn ysgolion	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Yr Uwch Garfan Reoli, Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, Penaethiaid Llesiant Pris: £75</p>	<p>Mae'r cwrs hanner diwrnod yma ar gyfer Penaethiaid, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ac athrawon dosbarth sy'n gweithio ar draws y cyfnodau allweddol. Bwriad y cwrs yw cynorthwy ysgolion gyda gwaith gweithredu polisi gwrth-fwlio effeithiol a datblygu strategaethau ysgol gyfan er mwyn mynd i'r afael â materion bwlio.</p>
Yr Ystafell Ddosbarth ADHD	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd Targed: Goruchwylwyr canol dydd, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynorthwyyr Cymorth Dysgu ac Athrawon Pris: £75</p>	<p>Dyma gwrs hanner diwrnod ar gyfer athrawon dosbarth sy'n gweithio mewn lleoliad cynradd. Bwriad y cwrs yw nodi problemau yn y dosbarth fel egni uchel, byrbwylltra a diffyg sgiliau canolbwyntio sy'n gysylltiedig â disgyblion ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ('ADHD') a datblygu strategaethau i hwyluso dysgu o ansawdd.</p>

Creu Amgylcheddau Cadarnhaol yn yr Ystafell Ddosbarth er mwyn Ymgysylltu â Phawb (Cynradd) / (Uwchradd)	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Yr Uwch Garfan Reoli, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Athrawon Pris: £75</p>	<p>Dyma gwrs hanner diwrnod ar gyfer Penaethiaid, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ac athrawon dosbarth sy'n gweithio o fewn lleoliad cynradd/uwchradd. Bwriad y cwrs yw datblygu amgylcheddau cynhwysol sy'n rhoi cyfle i bob dysgwyr ymgysylltu a bod yn llwyddiannus yn eu dysgu. Mae amgylchedd cadarnhaol yn rhan allweddol o sicrhau bod ysgolion a disgyblion yn cyflawni.</p>

Hybu Ymddygiad Cadarnhaol yn ystod Amser Cinio	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd Targed: Goruchwylwyr canol dydd, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynorthwylwyr Cymorth Dysgu, Athrawon Pris: £75</p>	<p>Dyma gwrs hanner diwrnod ar gyfer goruchwylwyr canol dydd, cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol a chynorthwylwyr cymorth dysgu. Bwriad y cwrs yma yw nodi a datblygu sgiliau sy'n hwyluso amgylcheddau cynhwysol a strwythuredig yn ystod amser cinio, gan gynnwys strategaethau sy'n dangos i blant sut i chwarae mewn modd addas.</p> <p>Mae modd i ni gynnal y cwrs yma ar ffurf sesiynau byrrach i gyd-fynd ag argaeledd y staff canol dydd.</p>

Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig / Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol

Trawsffurfio rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig / Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol presennol, newydd neu unrhyw un sy'n dymuno ymgymryd â'r rôl Pris: £250</p>	<p>Mae'r cwrs yn cynnwys 1 diwrnod llawn a 4 sesiwn hanner diwrnod a mentora wedi'i gynnig gan y Gwasanaeth Cynnal Dysgu. Mae'r cwrs yma'n addas yn benodol ar gyfer y rheiny sy'n newydd i rôl y Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig / Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, neu sy'n ystyried ymgymryd â'r rôl, neu Gydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig / Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n dymuno adnewyddu neu er mwyn gloymi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd gyda nhw'n barod.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rôl strategol a chyfrifoldeb y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol • Deall deddfwriaeth gyfredol a newidiol • Nodi Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/Anghenion Dysgu Ychwanegol a darparu ymateb graddedig cadarn <ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion a'u harferion gwaith • Pecyn Cymorth Asesiad • Cynllunio, gweithredu a monitro • Defnyddio ymyrraethau ychwanegol mewn modd effeithiol • Ymgysylltu ag Asiantaethau Allanol a chael mynediad i gymorth ychwanegol • Sefydlu perthnasau effeithiol gyda theuluoedd a'u cynnal <p>Trwy gydol y cwrs bydd cyfranogwyr yn cyflawni Hunanwerthusiad o'r ddarpariaeth ADY sydd ar gael yn eu hysgolion nhw ac yn cynnal portffolio o dystiolaeth er mwyn cefnogi'r gwelliannau y maen nhw'n eu gwneud.</p>

Defnyddio dull Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mewn Cyfarfodydd Adolygu: Hyfforddiant Hwyluso	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig, y rheiny sy'n hwyluso adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion Pris: £50</p>	<p>Dyma gwrs hanner diwrnod sy'n canolbwyntio ar weithredu dulliau Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolion. Bydd yn canolbwyntio ar Adolygiad Blynyddol o'r Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig. Bydd cyfranogwyr yn cael eu tywys trwy ddull cam wrth gam o bennu dyddiad yr adolygiad blynyddol i gyflwyno gwaith papur ac yn ystyried sut i ddefnyddio dulliau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion wrth gyrraedd camau gwahanol yn y broses.</p>

Cyflwyniad i Ddulliau Cynllun sy'n Canolbwyntio ar Unigolion	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Pris: £50</p>	<p>Dyma gwrs hanner diwrnod a fydd yn cynnig sgiliau allweddol i gyfranogwyr er mwyn defnyddio Dulliau sy'n Canolbwyntio ar Unigolion. Bydd y cwrs hefyd yn nodi'r defnydd ehangach o ddulliau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion o fewn Ysgol Gynhwysiol lle mae llais y disgybl yn chwarae rhan allweddol.</p>

Cydlynwdd Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd / aelodau newydd o'r Uwch Garfan Reoli - Cyflwyniad i Wasanaethau Mynediad a Chynhwysiant RhCT.	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Pris: Am Ddim</p>	<p>Bydd y sesiwn dwy awr yma'n cyflwyno'r cymorth sydd ar gael ar gyfer ysgolion sydd â dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y sesiwn yn ymdrin â phersonau allweddol y gwasanaethau a llwybrau atgyfeirio. Bydd y rheiny sy'n mynychu'r cwrs yn ennill dealltwriaeth glir o sut i weithio mewn partneriaeth mewn modd effeithiol, gan weithio gyda'r Gwasanaethau Cynhwysiant a Mynediad a gan gynnwys sut i wneud atgyfeiriadau addas.</p>

Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig / Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Uwch Arweinwyr</p>	<p>Diwrnod yn cynnwys siaradwyr gwadd pwysig (i'w cadarnhau), gweithdai a chyfle i rannu arfer da</p>

Cynnal disgyblion sydd â'r Saesneg yn iaith ychwanegol	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Athrawon Pris: Am Ddim</p>	<p>Bwriad y cwrs yw rhoi cymorth i staff ddefnyddio'r Model 5 Cam ar gyfer Saesneg fel iaith Ychwanegol o ran Caffaeliad a dulliau asesu RhCT er mwyn monitro cynnydd disgyblion. Bydd hyn yn canolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y broses atgyfeirio • Darpariaeth y garfan • Strategaethau ac adnoddau

Gwneud y defnydd orau o effaith cynorthwywyr addysgu; beth sydd angen i athrawon ei wybod	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Cydlynwyr AAA, Athrawon Pris: £60</p>	<p>Mae'r cwrs yma wedi cael ei ddatblygu a'i gymeradwyo gan Sefydliad Addysg UCL ar sail y gwaith ymchwil diweddaraf a chyfarwyddyd ynglŷn â defnyddio cynorthwywyr addysgu a'u heffaith; beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio.</p> <p>Mae'n ymdrin â</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarwyddyd ynglŷn â rôl cyflenwol athrawon a chynorthwywyr addysgu. • defnyddio dull 'scaffolding' fel fframwaith ar gyfer datblygu annibyniaeth disgyblion, • Defnyddio Cynorthwywyr Addysgu i sicrhau Asesu ar gyfer Dysgu, <p>Mae'r ffi yn cynnwys copi o argraffiad diweddaraf 'Maximising the Impact of Teaching Assistants; Rob Webster, Anthony Russell and Peter Blatchford'</p> <p>Mae'n hanfodol bod athro neu uwch arweinydd sy'n arolygu Cynorthwywyr Addysgu yn mynychu'r cwrs uchod cyn bod Cynorthwywyr Addysgu yn cyflawni'r hyfforddiant.</p>

Gwneud y defnydd orau o effaith cynorthwywyr addysgu; gwella annibyniaeth disgyblion	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Cydlynwyr AAA, Athrawon Pris: £120 1.5 diwrnod</p>	<p>Mae'r cwrs yma wedi cael ei ddatblygu ac wedi'i gymeradwyo gan Sefydliad Addysg UCL</p> <ul style="list-style-type: none"> • crynhoi'r gwaith ymchwil a chyfarwyddyd diweddaraf ynglŷn a rôl cynorthwywyr addysgu ac athrawon • fel fframwaith ar gyfer datblygu annibyniaeth y disgyblion, • adlewyrchu ar arferion cyfredol a datblygu strategaethau penodol • cyfrannu mewn modd effeithiol i Asesu ar gyfer Dysgu <p>Mae'r ffi yn cynnwys copi o argraffiad diweddaraf 'The Teaching Assistant's guide to effective interaction; Paula Bosanquet, Julie Radford and Rob Webster'</p> <p>Mae'n hanfodol bod athro neu uwch arweinydd sy'n arolygu Cynorthwywyr Addysgu yn mynychu'r cwrs uchod cyn bod Cynorthwywyr Addysgu yn cyflawni'r hyfforddiant.</p>

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Syndrom Down	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
Hwylusydd: Gwasanaeth Cynnal Dysgu	Rhoi dealltwriaeth o broffil dysgu ar gyfer dysgwyr Syndrom Down i ymarferwyr. Bydd hyfforddeion yn derbyn cyflwyniad i amrywiaeth o strategaethau a gweithgareddau y mae modd eu defnyddio i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd dysgwyr â Syndrom Down.

Ymlyniad yn yr Ystafell Ddosbarth	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
Hwylusydd: Gwasanaeth Seicoleg Addysg Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Athrawon, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Uwch Garfan Reoli Pris: £75	Dyma gwrs 1/2 diwrnod sy'n anelu at wella dealltwriaeth y staff o effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac ymlyniad gwan. Bydd theori a gwaith ymchwil seicolegol yn cael eu hystyried mewn perthynas â phrofiadau yn yr ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd. Bydd y sesiwn yn cynnwys gweithgareddau ymarferol/syniadau er mwyn rhoi cymorth i ddisgyblion yn amgylchedd y dosbarth.

Ymwybyddiaeth Ofalgar mewn Ysgolion	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
Hwylusydd: Gwasanaeth Seicoleg Addysg Cyfnod: Cynradd, Uwchradd Targed: Athrawon, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Uwch Garfan Reoli Pris: £75	Dyma gwrs 1/2 diwrnod sy'n archwilio gweithredu dulliau ymwybyddiaeth ofalgar mewn ysgolion a sut mae modd i hyn wella llesiant a hyrwyddo profiadau addysg cadarnhaol ar gyfer athrawon a dysgwyr.

Cefnogi Dysgwyr - Hunan-barch Cadarnahol	
Manylion y cwrs	Disgrifiad o'r cwrs
<p>Hwylusydd: Gwasanaeth Seicoleg Addysg</p> <p>Cyfnod: Cynradd, Uwchradd</p> <p>Targed: Athrawon, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, Cynorthwywyr Anghenion Dysgu Ychwanegol</p> <p>Pris: £75</p>	<p>Dyma gwrs 1/2 diwrnod sy'n archwilio datblygu hunan-barch ac sy'n ystyried ei effaith ar ddysgu. Bydd y sesiwn yn cynnwys gweithgareddau/adnoddau ymarferol er mwyn meithrin hunan-barch, gwella gwydnwch a gwella deilliannau.</p>

Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant Telerau ac Amodau

Mae'r telerau a'r amodau canlynol yn berthnasol i'r amserlen hyfforddi sy'n cael ei chynnal ar gyfer y flwyddyn academiaidd hon. Mae derbyn ffurflenni cadw lle'r cwrs gennych yn cadarnhau eich bod chi'n derbyn yr amodau hyn.

Telerau Talu

Caiff cwrs cost pob cwrs ei nodi gerllaw'r cwrs perthnasol. Mae'r ffi cadw lle'n cynnwys unrhyw gostau o ran archebu ystafell, lluniaeth a chostau gweinyddol.

*****Cofiwch nad oes modd ad-dalu unrhyw ffioedd cadw lle unwaith mae eich lle ar y cwrs wedi'i gadarnhau. Bydd ysgolion â llyfr siec yn derbyn anfoneb allanol gan Rondda Cynon Taf. Bydd ysgolion heb lyfr siec yn gweld bod didyniad wedi'i wneud drwy drosglwyddiad gan Swyddfa Gyllid yr Adran Addysg. Sicrhewch eich bod chi'n nodi'n glir pa ran o'r cyllid yr hoffech chi'i defnyddio i dalu am yr hyfforddiant******

Cadarnhau Cadw Lle

Mae modd cadw lle drwy anfon copi caled o'r ffurflen archebu (atodir fel atodiad 1) neu e-bostio'r ffurflen archebu at A+IService@rctcbc.gov.uk Byddwn ni'n anfon e-bost yn cadarnhau'r llefydd sydd wedi'u harchebu at y cyfeiriad sydd wedi'i nodi ar y ffurflen archebu.

Canslo neu Beidio â Mynychu

Os nad oes modd i unigolion fod yn bresennol ar gyfer y cwrs, byddwchystal â hysbysu'r Gwasanaeth ar 01443 744357 cyn gynted â phosibl. Fydd ffi'r cwrs ddim yn cael ei ad-dalu. Serch hynny, mae modd i ysgolion anfon cynrychiolydd arall heb unrhyw gost ychwanegol.

Mae rhaid cadarnhau eich bod yn canslo eich lle ar y cwrs mewn e-bost.

Canslo cyrsiau

Mae gan y Gwasanaeth yr hawl i ganslo cwrs hyfforddi neu newid yr hwylusydd. Os caiff cwrs ei ganslo byddwn ni'n rhoi gwybod i gynrychiolwyr gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar y ffurflen archebu.

Trosglwyddo

Fydd dim hawl gan gynrychiolwyr drosglwyddo ffioedd cadw lle i gwrs arall dan unrhyw amgylchiadau.

Gwerthuso

Bydd gofyn i'r holl gynrychiolwyr gwblhau ffurflen werthuso'r cwrs hyfforddi; bydd yr wybodaeth sy'n cael ei darparu yn helpu i wella'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig a'r modd y caiff ei gyflenwi yn y dyfodol. Caiff ffurflen werthuso ar ôl yr hyfforddiant ei hanfon at rai cynrychiolwyr yn ystod y tymor canlynol er mwyn mesur effaith yr hyfforddiant a gawsant.